trobwynt
Rhannu'r ffydd Gristnogol gyda'n hieuenctid
Cylchlythyr
Rhifyn 12
Gorff / Awst 2009

Cwpan CIC 2009

Daeth wyth o dimau pêl droed 5-yr-ochr i gae pob tywydd Ysgol Botwnnog ym Mhen Llŷn, nos Lun, Gorffennaf 6, i gystadlu am Gwpan CIC 2009, dan nawdd Trobwynt.

Dyma'r ail flwyddyn i Trobwynt, yr elusen sy'n noddi gwaith Cristnogol ymhlith yr ifanc yn Llŷn ac Eifionydd, drefnu'r gystadleuaeth hon ar gyfer bechgyn blynyddoedd 7,8 a 9 yr ysgol uwchradd. Ac fel y llynedd, cafwyd noson gynnes, braf. Cadwodd y glaw draw, er i ni gael digon ohono dros y Sul, a chafwyd noson o hwyl a chwarae brwd.

Roedd yn braf gweld oddeutu 60 o fechgyn yn mwynhau'r gystadleuaeth. Roedd y timau'n dod o Lithfaen, Cricieth, Pwllheli, Pentreuchaf ac un tîm wedi dod yr holl ffordd o Lanberis.

Pencampwyr Cwpan CIC 2009
Team Newtown o Bwllheli

Yn naturiol, roedd pawb eisiau ennill, ond chwaraewyd y gemau mewn awyrgylch cyfeillgar, iach; a rhaid canmol y bechgyn ifanc am hynny. Rhannwyd y timau yn ddau grŵp, gyda'u safleoedd o fewn y grwpiau yn penderfynu pwy fyddai pawb yn eu hwynebu yn rownd y chwarteri. Golygai hynny bod pob tîm yn chwarae mewn o leiaf bedair gem. Yn y rownd gyn derfynol, enillodd Newtown (Pwllheli) eu gem yn erbyn Eco (Llanberis) ac enillodd Rangers (Pentreuchaf) eu gem hwy yn erbyn Goleudy (Cricieth). Yn y rownd derfynol, Newtown oedd yn fuddugol o 1 gôl i 0 yn erbyn Rangers.

Roedd barbiciw wedi ei drefnu ar gyfer pawb erbyn i'r cystadlu ddod i ben. Cyn cyflwyno'r cwpan a'r tlysau, cafwyd sgwrs gan y Parchg John Pritchard, Llanberis. Soniodd amdano'i hun yn chwarae i dîm Llanberis ym Miwmares un tro, a'r dyfarnwr yn bygwth ei ddanfon oddi ar y cae am regi. Cael bai ar gam a wnaeth, gan mai un arall o chwaraewyr Llanberis oedd wedi rhegi. Roedd un o gefnogwyr pybyr y tîm wedi dod ar y cae i sicrhau'r dyfarnwr "bod John yn bregethwr, ac na fydda fo byth yn rhegi"! Dyw cael bai ar gam ddim yn brofiad braf i'r un ohonom. Ond dyna'n union a ddigwyddodd i Iesu Grist ar y groes, wrth iddo farw drosom. Fe gymerodd ef y bai am bopeth drwg a wnaethom ni, fel nad oes raid i ni gael ein cosbi am ein pechodau. Ac nid yw'n edliw hynny o gwbl, ond yn ein gwahodd i gredu ynddo. Yna cyflwynwyd tlws yr Esgid Aur i brif sgoriwr y noson, Jack Jones a'r tlws Chwarae Teg i Geraint Wyn Jones, a Chwpan CIC i dîm Newtown.

Ymweliad y Gwyddelod
11 - 24 Gorffennaf
(Adroddiad yn y rhifyn nesaf)

Erika (Llangwnnadl / Belfast), John (G /Iwer), Jake (Cricieth), Neil (G/Iwer)
Garreth (Llangwnnadl), Luke (Gog/Iwer), John a Rachel

Y criw yn dweud stori am fôr ladron!

Cyfarfod Botwnnog

Neil o Ogledd Iwerddon a chriw Llithfaen yn Uts e Nocowt.

Uts e Nocowt yn y Ffôr

Rachel a Neil yn dweud wrth y pobl ifanc an eu ffrind Iesu Grist

Hoffech chi gefnogi trobwynt ?

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd
Tabor
Llithfaen
Pwllheli
LL53 6NL Rhif Ffôn: 01758 750202